# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Conference Room C - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 13 Hydref 2022

Amser: Times Not Specified

# IRB(05-22)

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd);<br>David Hanson;<br>Michael Redhouse;<br>Jane Roberts;<br>Hugh Widdis |
| Ysgrifenyddiaeth: | Martha Da Gama Howells, Ail Glerc;<br>Ruth Hatton, Dirprwy Glerc;<br>Angharad Coupar, Dirprwy Glerc; (rhithwir drwy MS Teams)<br>Anna Daniel, Uwch-gynghorydd i'r Bwrdd;<br>Craig Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol i'r Bwrdd;<br>Bethan Davies, Pennaeth Cefnogaeth ac Ymgysylltu â'r Aelodau;<br>Martin Jennings, Arweinydd Tîm Ymchwil, Uned Craffu Ariannol<br>Kate Rabaiotti, Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Cyfranogwyr: | Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd;<br>James Attridge, Uwch Reolwr Diogelwch;<br>Joanna Adams, Pennaeth Cyswllt Aelodau |
| Sylwedyddion: | Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd;<br>Huw Bowen, Cymorth Busnes i Aelodau |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd (9.00 - 9.05)

- Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.
- Nid oedd David Lakin, Swyddog Cymorth y Pwyllgor, yn bresennol oherwydd profedigaeth deuluol a mynegodd y Bwrdd eu dymuniadau gorau i David.
- Llongyfarchodd y Bwrdd Joanna Adams ar ei dyrchafiad diweddar a diolchodd iddi am ei gwaith gwerthfawr yn cefnogi'r Bwrdd.
- Croesawodd y Bwrdd Martha Da Gama Howells ac Angharad Coupar i'r Tîm Clercio.
- Trafododd y Bwrdd hawliad Treuliau Eithriadol a dderbyniwyd gan Aelod, a phenderfynodd gymeradwyo'r hawliad yn amodol ar ymgynghori â Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn, fel sy'n ofynnol yn ôl y Penderfyniad.
- Soniodd y Bwrdd am ei ymweliadau â swyddfeydd grwpiau gwleidyddol a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol, a chytunwyd ei fod wedi rhoi cipolwg defnyddiol ar sut mae'r grwpiau'n gweithredu ac yn defnyddio'r cyllid a ddarparwyd iddynt yn ôl y Penderfyniad, i gefnogi dyletswyddau seneddol yr Aelodau.
- Gan fyfyrio ar faterion parhaus ar gyfer y Bwrdd, cytunwyd y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am oblygiadau treth yr Aelodau yn cael ei cheisio a'i thrafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr.
- Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf.

**Cam i'w gymryd**:

- Yr Ysgrifenyddiaeth i ysgrifennu at y Prif Weithredwr i ymgynghori ar y cais am Dreuliau Eithriadol.
- Cynnwys goblygiadau treth ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ym mis Rhagfyr.
- Cyhoeddi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf

## 2 Eitem i'w thrafod: Diwygio'r Senedd (9.05 - 9.20)

- Soniodd y Bwrdd am ei gyfarfodydd a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol gydag Arweinwyr Pleidiau. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd y bydd hi'n cyfarfod â'r Llywydd ddiwedd mis Hydref i drafod Diwygio'r Senedd.
- Cytunodd y Bwrdd i ofyn am gyfarfod â Phrif Weinidog Cymru, pan fydd yn gyfleus iddo, i drafod diwygio'r Senedd.

**Cam i'w gymryd**:

- Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â Swyddfa'r Prif Weinidog i drefnu cyfarfod.

## 3 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Y Cytundeb Cydweithio (9.20 - 9.45)

- Ystyriodd y Bwrdd yr holl dystiolaeth a gafwyd ar oblygiadau'r Cytundeb i gyflogau a lwfansau'r Aelodau, gan gynnwys llythyrau a dderbyniwyd yn ddiweddar gan y grwpiau gwleidyddol.
- Bu'r Bwrdd yn ystyried yr amrywiaeth o safbwyntiau a fynegwyd gan y grwpiau ar faterion, gan gynnwys rhannu'r lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol. Unwaith eto nododd y Bwrdd y cyngor cyfreithiol a nododd nad yw Plaid Cymru yn blaid mewn llywodraeth.
- Penderfynodd y Bwrdd na ellir cyfiawnhau unrhyw newidiadau i lwfansau yng ngoleuni'r Cytundeb Cydweithio.
- Mewn ymateb i gwestiwn penodol a godwyd gan Blaid Cymru cytunodd y Bwrdd y gall Aelodau hawlio ad-daliad am dreuliau a gafwyd fel Aelodau Dynodedig, ond nododd nad yw'r Penderfyniad yn caniatáu ar gyfer ad-dalu costau a gafwyd o ganlyniad i weithgarwch plaid wleidyddol. Cydnabu'r Bwrdd nad yw'r gwahaniaeth rhwng gweithgarwch seneddol a gweithgarwch plaid wleidyddol bob amser yn glir a bod yn rhaid i'r Aelodau ddefnyddio eu barn yn y modd gorau wrth wneud hawliadau am gostau yr eir iddynt. Mae enghreifftiau o weithgarwch sy'n gyfystyr â gweithgarwch plaid wleidyddol wedi'u nodi yn Rheol 1 o Reolau a Chanllawiau'r Swyddog Cyfrifyddu ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd.

**Cam i'w gymryd:**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i ddrafftio llythyr at Grŵp Plaid Cymru parthed Aelodau Dynodedig yn hawlio treuliau.

## 4 Eitem i'w thrafod: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch (9.45 - 10.30)

- Cafodd aelodau'r Bwrdd ddiweddariad gan Dîm Diogelwch y Comisiwn ar drefniadau diogelwch yr Aelodau.
- Roedd y Bwrdd yn falch o nodi'r cynnydd a wnaed o ran asesu gofynion yr Aelodau a darparu ar eu cyfer, a diolchodd i'r tîm am eu papur diweddu.

- Nodwyd bod y Comisiwn yn ystyried parhad ac esblygiad y prosiect presennol i asesu gofynion diogelwch yr Aelodau. Mae'r Bwrdd yn cefnogi ei barhad i ddiwallu anghenion yr Aelodau.

## 5 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Costau byw/ Costau ynni (10.45 - 11.45)

- Bu'r Bwrdd yn ystyried tystiolaeth fanwl ar gostau byw yng Nghymru, y sefyllfa economaidd bresennol, effaith pwysau chwyddiant ar gostau busnes yr Aelodau ac ymateb Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i'r argyfwng costau byw. Penderfynodd y Bwrdd barhau i adolygu'r sefyllfa a chael diweddariad pellach yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr. Bydd y dystiolaeth a ddarperir ym mis Rhagfyr yn helpu i lywio ei benderfyniad ynghylch unrhyw newidiadau y mae'r Bwrdd yn dymuno eu gwneud i'r Penderfyniad.

**Cam i'w gymryd:**

- Y Bwrdd i adolygu'r sefyllfa fel y mae'n datblygu, yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.

## 6 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Adolygiad Thematig - Ffyrdd o weithio (11.45 - 12.30)

- Ystyriodd y Bwrdd faterion blaenoriaeth fuan o ran y cymorth sydd ei angen ar yr Aelodau a'u staff i hwyluso gweithio gartref neu waith hybrid, gan gynnwys y lwfans gweithio gartref, a chyfarpar ar gyfer swyddfeydd gartref.
- Iechyd a Diogelwch – Cytunodd y Bwrdd i adolygu'r darpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch, i wneud pethau'n gliriach ac yn symlach. Cytunwyd y byddai'r adolygiad hwn yn cael ei arwain gan Hugh Widdis, gyda chefnogaeth swyddogion.
- Lwfans gweithio gartref – cytunodd y Bwrdd i ystyried, fel rhan o'r Adolygiad Blynyddol, y ddarpariaeth yn y Penderfyniad ar gyfer y lwfans gweithio gartref, a sefydlwyd mewn ymateb i Covid-19.
- Lwfans Dychwelyd i'r Swyddfa Covid-19 – Cytunodd y Bwrdd i gau'r gronfa hon o ddiwedd mis Tachwedd, ac i gyhoeddi hysbysiad yn rhoi gwybod y caiff y lwfans hwn ei gau ar gyfer unrhyw hawliadau newydd o ddiwedd mis Tachwedd.

## 7 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Adolygiad Thematig - Cymorth staffio i'r Aelodau (13.15 - 14.00)

- Nododd y Bwrdd yr adborth a ddaeth i law ar y cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr adolygiad, a rannwyd â'r Grwpiau Cynrychioliadol a'r Prif Weithredwr a Chlerc yn ystod toriad yr haf.

- Cytunodd y Bwrdd ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad.
- Fel rhan o gam cyntaf yr adolygiad, ac yng ngoleuni galwadau am ragor o gefnogaeth staffio i Aelodau, bu'r Bwrdd yn trafod sylwadau a wnaed ar y mater hwn gan yr Aelodau yn ystod y flwyddyn hon, a newidiadau i faint a chymhlethdod llwyth gwaith yr Aelodau. Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod cymhlethdod gwaith seneddol yr Aelodau wedi cynyddu.
- Cytunodd y Bwrdd i ystyried hyn ymhellach fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2023/24.

## 8 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Ystyriaeth gychwynnol o'r Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad (14.00 - 14.45)

- Cytunodd y Bwrdd ar gwmpas yr adolygiad blynyddol ar gyfer 2023/24 a'i ddull o gyhoeddi'r ymgynghoriad.
- Cytunodd y Bwrdd i ymgynghori am chwech wythnos (gan ei gyhoeddi yn gynnar ym mis Ionawr) ar newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad ar gyfer 2023/24, gyda'r bwriad o gyhoeddi Penderfyniad diwygiedig erbyn 1 Ebrill 2023.
- O ran yr addasiad blynyddol mynegrifol i gyflogau Aelodau a staff cymorth, nododd y Bwrdd y bydd ffigurau'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yn cael eu cyhoeddi ar 3 Tachwedd.
- Yng ngoleuni canllawiau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi na ddylai'r £25 y gall Aelodau ei hawlio am aros gyda ffrindiau neu deulu tra ar fusnes y Senedd gael ei dalu mwyach, cytunodd y Bwrdd i ymgynghori ar ddod â'r ddarpariaeth hon i ben fel rhan o'r adolygiad blynyddol.
- Yn sgil sylwadau gan Aelodau ar ddigonolrwydd y lwfans sydd ar gael ar gyfer aros dros nos mewn gwestyau yn Llundain, penderfynodd y Bwrdd ystyried y mater hwn fel rhan o'r adolygiad blynyddol.

## 9 Eitem i'w thrafod: Y wybodaeth ddiweddaraf a'r flaenraglen waith (14.15 - 15.00)

- Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio i swyddi newydd o fewn Tîm Clercio'r Bwrdd.
- Er mwyn sicrhau gwerth am arian, cytunodd y Bwrdd y byddai gwaith i fynd i'r afael â'r materion teipograffyddol ac ieithyddol y gwyddys amdanynt yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau yn cael ei ohirio nes y bydd adolygiad mwy sylweddol o reolau'r cynllun yn ofynnol.
- Nododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu Cynllun Aberthu Cyflog Cerbydau Trydan Comisiwn y Senedd.

- Cytunodd y Bwrdd y byddai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 8 Rhagfyr yn cael ei gynnal yn rhithwir.